# Atodiadau:

## Atodiad A: Y sefyllfa bresennol o ran cysylltedd rhyngrwyd yn Sir Ddinbych

Yn seiliedig ar ffigurau Ofcom (sy'n briodol i'w defnyddio at ddibenion cynllunio yn y pwnc hwn), mae'r niferoedd canlynol o eiddo yn Sir Ddinbych (lle mae eiddo yn cyfateb i gyfeiriad, h.y. gallai fod yn gyfeiriad busnes, neu un adeilad sy'n cynnwys sawl fflat, pob un ohonynt yn eiddo).

Cyfanswm yr eiddo 50,724
Nifer yr Eiddo sydd â chyflymder llai na 30mbs 2,580 (2,690 y flwyddyn gynt)
Nifer yr Eiddo sydd â chyflymder llai na 10mbs 1074 (1,145)
Nifer yr Eiddo sydd â chyflymder llai na 5mbs 606 (665)
Nifer yr Eiddo sydd â chyflymder llai na 2mbs 219 (255)

### Cymhariaeth Cwmpas Cysylltiad Ffibr i'r Adeilad (FTTP):

(Ffigurau Openreach Mawrth 2025)

Y DU 76% (63.43% y flwyddyn gynt)
Cymru 76.62% (61.85%)
Sir Ddinbych 83.05% (73.19%)

**Atodiad B: Manylion Pellach Ynglŷn â'r Opsiynau a'r Cymhlethdodau o amgylch Gwella Cysylltedd yn Sir Ddinbych**

1. **Gallu Cyfyngedig CSDd i Ddylanwadu ar Waith Openreach**

   1.1. Mae Llywodraeth y DU yn ystyried teleffoni yn Farchnad Agored. Mae hyn yn golygu nad yw cysylltu pob eiddo yn gyfrifoldeb i Openreach yn unig. Mae dwsinau o ddarparwyr teleffoni/rhyngrwyd yn y DU sydd â'r un cyfle i gysylltu eiddo yn Sir Ddinbych. Maent yn dewis peidio, oherwydd y gost.

2. **Grant Talebau Gigabit (wedi'i oedi ar hyn o bryd ar gyfer y rhan fwyaf o'r DU)**

   2.1. Mae Llywodraeth y DU yn darparu grant o'r enw 'Talebau Gigabit', sy'n cynnig cyllid ar gyfer gosodiadau rhyngrwyd ffibr. Mae'r grant hwn yn rhoi hyd at £4,500 tuag at gostau gosod cysylltiad ffibr i eiddo cymwys.

   2.2. Drwy ffurfio grwpiau o eiddo cymwys a chyfuno'r arian hwnnw, mae'n bosibl weithiau talu cost y dyfynbris a ddarparwyd gan Openreach i osod ffibr drwy eu Rhaglen Cymunedau Ffibr.

   2.3. Mae'r broses hon yn cymryd tua dwy flynedd; Chwe mis i ffurfio'r grŵp, casglu data a gwneud cais, yna mae Openreach yn dyfynnu amser arweiniol o 18 mis ar gyfer cwblhau ar ôl llofnodi'r contract.


   2.4. Eiddo cymwys ar gyfer Talebau Gigabit yw eiddo sy'n cael cyflymder llai na 100mbps ac nad ydynt mewn cynllun uwchraddio presennol neu nad ydynt wedi'u dosbarthu fel rhai 'dan adolygiad' ar gyfer uwchraddiad gan Openreach.

   2.5. Mae Llywodraeth y DU wedi oedi'r cynllun 'Talebau Gigabit' yng Nghymru nes iddo gadarnhau'r cynllun i gyflwyno'r 'Prosiect Gigabit'.

   2.6. Nid yw Llywodraeth Cymru bellach yn cyfrannu at y Talebau Gigabit.

3. **Gwaith Uwchraddio a Gynlluniwyd yn Sir Ddinbych**

   **3.1. Mae map hanesyddol yn dangos cwmpas rhaglen uwchraddio ardaloedd cyfnewidfeydd Openreach. Mae Openreach yn addo uwchraddio o leiaf 75% o'r eiddo ym mhob ardal uwchraddio cyfnewidfa i ffibr llawn erbyn mis Rhagfyr 2026.**




Y cyfnewidfeydd sy’n rhan o’r cynllun yw:

| **Enw’r Gyfnewidfa** | **Cynnydd (Mawrth 2025)** |
|---|---|
| Dinbych | 95.3% |
| Prestatyn | 89% |
| Y Rhyl | 83.3% |
| Rhuddlan | 81.7% |
| Llanelwy | 60.9% |
| Trefnant | 69.1% |
| Corwen | 48.6% |
| Rhuthun | 47.4% |
| Llanarmon yn Iâl | 45.6% |
| Llangollen | 18.6% |
| Dyserth | 18.6% |

Y cyfnewidfeydd nad ydynt yn rhan o’r cynllun yw:

Bodfari
Bryneglwys
Clawddnewydd
Cyffylliog
Glyndyfrdwy
Llandegla
Llandyrnog
Llanferres
Llanynys
Nantglyn

## 4 Technolegau Amgen

**4.1** Fel datrysiad dros dro ar gyfer ardaloedd sydd â chysylltiadau gwael, mae cyllid grant ar gael i brynu a gosod llwybryddion 4g gydag antenâu allanol.

**4.2** Band Eang Di-wifr Sefydlog a Starlink: Mae'r technolegau hyn yn cynnig cysylltedd rhesymol i'r rhan fwyaf o Sir Ddinbych ond ni ddylid eu hystyried fel ateb hirdymor. Mae grant 'Mynediad Band Eang Cymru' Llywodraeth Cymru yn cynnig cyllid i brynu'r offer a thalu am gost gosod. Mae Starlink yn costio £75 y mis, sy'n rhy ddrud.